



**Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding**

Pan fydd Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd angen chwarae rhan

Llyfryn hawdd ei ddeall

**Pwy sydd yn
mynd i
chwarae
rhan?**



**Beth sydd
angen i mi
wneud?**

**Pwy sy'n
medru fy
nghefnogi?**

Mae'r llyfryn hwn yn medru eich helpu i ddeall beth fydd yn digwydd os yw Gwasanaethau Plant yn poeni am eich plentyn.

Dyma rai pethau y bydd angen i chi wybod cyn i chi ddechrau darllen

Yn y llyfryn, mae rhai geiriau wedi eu **hamlygu**.

Yng nghefn y llyfryn, mae Geirfa. Mae'r eirfa yn esbonio ystyr y geiriau sydd wedi eu **hamlygu**.

Byddwn hefyd yn esbonio'r mathau gwahanol o **gam-drin**.

Sicrhewch eich bod yn derbyn y gefnogaeth gywir

Efallai eich bod am gael rhywun gyda chi tra eich
bod yn darllen y llyfryn hwn.

Os nad ydych yn deall rhywbeth, mae'r person
arall wedyn yn medru eich cefnogi.

Mae'r person yma yn medru bod yn

eiriolwr i chi, neu'n ffrind yr ydych yn

ymddiried ynndo.

Yng nghefn y llyfryn, mae yna dudalen wag fel
eich bod yn medru nodi unrhyw beth pwysig yr
ydych am gofio.

Mae modd i chi ddefnyddio hyn er mwyn nodi
unrhyw feddyliau, teimladau neu gwestiynau.

Y Gynhadledd Amddiffyn Plant

Pwy fydd yno o bosib?

Bydd rhai o'r bobl yma yn eich 'nabod chi.
Efallai na fydd rhai ohonynt wedi cwrdd â chi
o'r blaen.



Swyddog Heddlu



Eich Ymwelydd Iechyd



Eich Gweithiwr Cymdeithasol



Eich eiriolydd



Bydd pawb yn cyflwyno eu hunain.

Beth fydd yn digwydd yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant?




Bydd yr holl weithwyr proffesiynol yn trafod yr adroddiadau gwahanol y maent wedi ysgrifennu.



Byddant yn trafod yr hyn sydd yn eu gofidio.



Byddant hefyd yn trafod yr hyn yr ydych yn gwneud yn dda fel teulu.



Tip

Byddai'n dda os yw eich gweithiwr cymdeithasol yn rhoi copi i chi o'r adroddiad y maent wedi ysgrifennu – a hynny cyn y cyfarfod. Dylent esbonio'r adroddiad i chi.

Chi a'ch eiriolwr



Mae eich **eiriolwr** yno i'ch cefnogi chi ddeall unrhyw beth sydd yn medru bod yn anodd.



Mae eich **eiriolwr** yno er mwyn sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed.



Bydd yr holl weithwyr proffesiynol yn penderfynu gyda'i gilydd ar yr hyn sydd angen digwydd.



Efallai y bydd eich plentyn angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth neu Gynllun Gofal a Chymorth.

Y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth



Efallai y byddant yn dewis bod eich plentyn mewn **peryg sylweddol o niwed**.



Bydd yr holl weithwyr proffesiynol yn rhannu eu barn ynglŷn â'r hyn sydd angen digwydd er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel.

Beth fydd cynnwys y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth?



Bydd y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn nodi rhestr o ganlyniadau a phwyntiau gweithredu.



Mae'r cynllun yn esbonio beth sydd angen ei wneud er mwyn cadw eich plentyn yn ddiogel.



Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut y bydd gweithwyr proffesiynol yn eich cefnogi i gadw eich plentyn yn ddiogel.



Byddwch yn derbyn copi o'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.

Tip



Mae'n bwysig eich bod yn cadw'r holl ddogfennau sy'n cael eu rhoi i chi mewn lle diogel.

Mae modd i chi eu cadw mewn ffolder fel nad ydych yn eu colli.

Byddwch yn cael copi printiedig o'r cynllun

Pwy sydd yn medru fy nghefnogi
gyda'm hemosiynau?

Efallai eich bod yn profi llawer o
deimladau gwahanol.

Yn ofidus

Wedi cymhlethu



**Yn
rhwsytredig**

Yn ddig



Efallai bod pethau nad ydych dal yn eu deall.



Efallai y bydd hyn yn gwneud i chi deimlo yn rhwystredig neu'n ddig neu'n ofidus.



Os oes **eiriolwr** gennych, maent yn medru eich helpu chi ddeall pethau'n well.



Mae eich **eiriolwr** yn medru helpu chi ddod o hyd i rywun sydd yn medru eich cefnogi i drafod eich teimladau.

Beth sydd yn digwydd pan fydd y Cynllun Gofal a Chymorth yn ei le?



Bydd angen i chi fynychu cyfarfodydd
Grŵp Craidd.



Bydd y cyfarfodydd yma yn cael eu
cynnal bob 4-6 wythnos.



Bydd y gweithwyr proffesiynol sy'n
gweithio gyda chi a'ch plentyn
yno.



Byddant yn trafod a yw'r
pwyntiau gweithredu yn y Cynllun
Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cael eu
gweithredu ac a yw pethau'n gwella ar
gyfer eich plentyn.



Mae eich **eiriolwr** yn medru dod gyda chi.



Cyn y cyfarfod, mae eich **eiriolwr** yn medru eich cefnogi i ysgrifennu rhestr wirio o'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn yn y cyfarfod.



Rydych hefyd yn medru ysgrifennu neu siarad gyda'ch eiriolwr am un rhywbeth yr ydych am i'r gweithwyr proffesiynol wybod amdano.

Mathau gwahanol o gam-drin

Bydd y tudalennau
nesaf yn disgrifio'r
mathau gwahanol
o gam-drin.

Mae'n bwysig bod rhywun gyda chi pan eich bod yn darllen hyn.

Maent yn medru eich cefnogi i ddeall y mathau gwahanol o gam-drin.

Maent hefyd yn medru eich cefnogi os oes unrhyw beth yn peri gofid i chi.

Beth yw cam-drin emosiynol?



Mae cam-drin emosiynol yn digwydd pan fydd yn rhywun yn gwneud i blentyn deimlo nad oes neb yn ei garu.

Mae enghreifftiau yn cynnwys dweud pethau angharedig i'r plentyn.

Gwrthod caniatáu i'r plentyn dreulio amser gyda phlant eraill o'r un oedran.

Enghraifft arall yw cynnwys plentyn mewn problemau oedolion fel problemau gyda pherthynas.

Os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol, efallai y bydd yn chwilio am lawer o sylw gan bobl eraill.

Efallai y bydd plentyn yn dangos arwyddion ei fod wedi brifo'i hun mewn rhyw ffordd.

Efallai ei fod yn dweud ei fod am
frifo'i hun.

Beth yw esgeulustod?

Mae esgeulustod yn digwydd pan nad yw plentyn yn derbyn y gofal priodol gan y person sydd yn gyfrifol am ofalu amdano.

Mae'n medru cynnwys methu rhoi diogelwch a chynhesrwydd i blentyn.



Methu sicrhau bod plentyn yn lân ac yn sych.

Methu mynd â'r plentyn i'r meddyg os yn sâl.

Efallai bod plentyn sy'n cael ei esgeuluso yn edrych yn wael yn gorfforol.

Efallai bod y plentyn yn arogli'n ddrwg.

Efallai nad yw dillad y plentyn yn ffitio.

Efallai bod y plentyn yn sâl yn aml neu'n flinedig iawn.

Beth yw cam-drin corfforol?

Mae cam-drin corfforol yn golygu niwed sydd yn cael ei achosi i'ch corff.



Mae enghreifftiau o gam-drin corfforol yn cynnwys bwrw, crafu, taro, cnoi neu losgi.

Os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn gorfforol, efallai bod arwyddion o hyn.



Efallai bod briwiau, cleisiau neu losgiadau gan y plentyn.

Efallai bod y rhain ar ddarnau o'r corff sydd wedi eu cuddi o dan ddillad.

Beth yw cam-drin rhywiol?

Mae cam-drin rhywiol yn digwydd pan fydd oedolyn yn gorfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol.



Mae hyn yn anghywir bob tro.

Mae enghraifft o gam-drin rhywiol yn cynnwys cusanu neu gyffwrdd â rhannau preifat y corff fel pidyn neu gwain.

Efallai bod plant yn cael eu gorfodi i edrych neu wyllo ar luniau neu fideos na ddylent fod yn eu gwyllo.

Os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, efallai ei fod yn ymddwyn yn wahanol.

Efallai y bydd y plentyn yn trafod pethau y mae'n rhy ifanc i wybod amdanynt.

Sut mae cam-drin yn medru effeithio ar rywun?

Mae cam-drin yn medru achosi person i deimlo'n wael iawn am ei hun.

Mae cam-drin hefyd yn medru ei gwneud hi'n anodd i'r dioddefwr i ymddiried mewn pobl eraill.



Mae cam-drin yn medru arwain at bobl yn cael trafferth yn ffurfio perthynas ag eraill.

Mae cam-drin yn gwbl anghywir ac ni ddylai ddigwydd i neb – byth.

Cam-drin Plant.

Nid yw plant yn medru
amddiffyn eu hunain rhag cam-
drin.



Mae plant angen cael eu
hamddiffyn rhag cael eu cam-
drin.

Mae hyn am nad ydynt yn deall
yr hyn sydd yn gywir a'n
anghywir.

Mae plant fel arfer yn caru ac yn
ymddiried llawer iawn yn eu
rhieni neu'u gofalwyr.

Efallai nad ydynt yn deall bod eu
rhieni neu ofalwyr yn gwneud
rhywbeth o le.

Efallai nad ydynt am greu
trafferth ar gyfer y rhieni.

Geirfa

Eiriolwr



Mae eiriolwr yn rhywun na sydd yn gweithio ar gyfer y Cyngor neu unrhyw asiantaeth arall.

Mae eiriolwr yn sicrhau bod eich barn yn cael ei rhannu a bod gweithwyr yn gwrando arnoch a'ch bod yn deall y wybodaeth.

Cam-drin



Mae cam-drin yn digwydd pan fydd rhywun yn amharchu neu'n niweidio rhywun arall.

Mae modd cam-drin person mewn sawl ffordd. Nid yn unig mewn modd corfforol.

“Mewn peryg”



Os yw eich plentyn ‘mewn peryg’, mae'n golygu bod modd

niweidio'r plentyn mewn rhyw
ffordd.



Cyfarfod Grŵp Craidd

Mae cyfarfodydd grŵp craidd yn medru digwydd ar ôl bod eich plentyn yn derbyn Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.

Bydd y gweithwyr proffesiynol sydd yn gweithio'n agos gyda chi a'ch plentyn yno.

Yn y cyfarfod, byddwch yn trafod yr hyn sydd angen i bawb ei wneud er mwyn cadw eich plentyn yn ddiogel.

Geirfa

Niwed



Mae niwed yn digwydd pan fydd person yn niweidio person arall yn fwriadol.



Mae modd niweidio eich corff a'ch teimladau.



.

“Peryg sylweddol o niwed”

Mae hyn yn golygu bod eich plentyn yn debygol iawn o gael ei niweidio mewn rhyw ffordd.

Nodiadau Pwysig

Delweddau yn dod o Photosymbols a Google Images

www.photosymbols.com